## FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| | |
|---|---|
| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
| **Enw'r Cynnig:** | Diwygiad - Mannau parcio ar gyfer pobl anabl |
| **Adran** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Sian Nowell |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad** | Mari Ropstad |
| **E-bost** | Mari.Ropstad@rctcbc.gov.uk. |
| **Rhif ffôn** | 07812 137529 |
| **Disgrifiad cryno** | **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?**<br>Cafodd y cynllun Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl presennol ei gyflwyno yn 2004 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny yn 2015 yn dilyn adolygiad. Ers ei gyflwyno mae nifer y bobl sy'n gwneud cais am fan parcio wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 193 wedi dod i law yn ystod y rownd ddiwethaf yn 2022/2023.<br><br>Yn hanesyddol, mae 12 o fannau parcio wedi'u dyfarnu bob blwyddyn yn seiliedig ar ymgeiswyr yn bodloni rhai meini prawf cymhwysedd sylfaenol ac asesiad gweithredol wedi'i sgorio gan Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwyydd Therapi Galwedigaethol sy'n rhan o'r garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned. Ers ei gyflwyno, mae 269 o fannau parcio i bobl anabl wedi'u gosod yn y Fwrdeistref Sirol. O'r rhain, mae 115 wedi cael eu tynnu, gan adael tua 154 o fannau parcio i bobl anabl yn eu lle. Mae proses Rhondda Cynon Taf ar gyfer darparu Mannau Parcio Unigol ar gyfer Pobl Anabl yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r cynllun presennol yn codi ffi ymgeisio o £10 ar bob ymgeisydd nad oes modd ei had-dalu. Nid oes hawl i apelio, ond mae modd i ymgeiswyr ail-ymgeisio yn ystod y rownd nesaf. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn asesu ac yn blaenoriaethu'r ceisiadau hyn, gan arwain yn aml at anfodlonrwydd ymhlith y rhai nad ydyn nhw'n derbyn dyraniad man parcio unigol ar gyfer pobl anabl. Yn ogystal, mae pryderon y cyhoedd ynghylch y |

RHONDDA CYNON TAF

broses ddyrannu yn parhau. Mae'r broses yn cynnwys nid yn unig asesiadau Therapyddion Galwedigaethol ond hefyd cydlynu ag awdurdodau traffig ar gyfer gosod a chynnal a chadw'r mannau parcio. Mae'r cymhlethdod hwn ynghyd â lefel o anfodlonrwydd gan y cyhoedd wedi tynnu sylw at yr angen am adolygiad i archwilio'r potensial i fireinio'r prosesau asesu a chymhwysedd a'r mecanweithiau ehangach sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun dyrannu mannau parcio. Cafodd y cynllun presennol ei atal ym mis Medi 2023 wrth i adolygiad allanol llawn gael ei gynnal o bolisi presennol y Cyngor ar fannau parcio preswyl ar gyfer pobl anabl, er mwyn llywio'r opsiynau sydd ar gael ynghylch darparu mannau parcio preswyl ar gyfer pobl anabl yn y dyfodol.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad gan Practice Solutions, dyddiedig Ionawr 2025, na fydd yn cael unrhyw effaith ar ddeiliaid presennol Man Parcio ar gyfer Person Anabl, yn argymell y dylai Cyngor Rhondda Cynon Taf barhau i gynnig cynllun mannau parcio ar gyfer pobl anabl gyda pholisi a meini prawf cymhwysedd wedi'u diwygio i fodloni argymhellion yr adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu proses glir a mwy tryloyw i ymgeiswyr.
- Cyflwyno meini prawf a gwybodaeth fwy cadarn sy'n ofynnol i benderfynu ar gymhwysedd er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o gronfeydd cyfyngedig.
- Cyflwyno canllawiau cynhwysfawr sy'n cynnwys camau'r broses, amserlenni a gwybodaeth am waharddiadau traffig ar gyfer yr ymgeisydd.
- Cyflwyno proses sgrinio fwy effeithlon o'r cychwyn cyntaf.
- Cyflwyno system i adolygu defnydd/camddefnydd mannau parcio ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys cael gwared ar fannau nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.
- Ystyried cael gwared ar y ffi ymgeisio a'i disodli â strategaeth codi tâl newydd.
- Darparu rhesymau ysgrifenedig clir dros wrthod man parcio ar gyfer pobl anabl i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Fel y dangosir yn adroddiad Practice Solutions, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn gweithredu amrywiol fodelau codi tâl gyda'r rhan fwyaf ddim yn codi tâl o gwbl, rhai yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu talu'n flynyddol neu ffi weinyddol, a dau awdurdod lleol yn codi £250 a £689 ar ymgeiswyr llwyddiannus yn y drefn honno. Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd gan Practice Solutions yn amcangyfrif mai £1,159 yr un oedd cost pob man parcio am y 3 blynedd diwethaf y bu'r cynllun ar waith, sy'n cynnwys yr hysbysiadau cyfreithiol, codi arwyddion, marciau ffordd a rheoli traffig, ond nid yw'n cynnwys y costau amser rheoli, asesiadau na'r broses ymgeisio ac felly, yn seiliedig ar y gost o bob adran yn y tabl uchod, gwir gost pob man parcio yw tua £3,474 yr un.

Mae'r llun sgematig sylfaenol o'r model arfaethedig wedi'i gynnwys isod.

RHONDDA CYNON TAF

**Cyflwyno cais**

- Ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn canolfan IBobUn.
- Prawf wedi'i lanlwytho fel tystiolaeth o'r meini prawf cymhwysedd newydd.
- Tâl gweinyddol yn cael ei godi (os caiff hyn ei gyflwyno).

**Gwiriadau cymhwysedd**

- Tystiolaeth yn cael ei gwirio yn erbyn y meini prawf, gan gynnwys cyfyngiadau o ran traffig.
- Ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod, gan gynnwys rhesymau.

**Asesiad gweithredol**

- Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwyydd Therapi Galwedigaethol yn cwblhau asesiad yn unol â'r meini prawf sgorio diwygiedig.
- Tystiolaeth feddygol wedi'i chynnwys yn yr asesiad.

**Cymeradwyaeth y panel**

- Panel aml-adrannol yn gwneud penderfyniad terfynol ar ymgeiswyr llwyddiannus.
- Tâl yn cael ei godi ar ymgeiswyr llwyddiannus (os caiff hyn ei gyflwyno).
- Ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod, gan gynnwys rhesymau. Dim hawl i apelio.

**Rheolaeth barhaus**

- Datblygu system ar gyfer ail-gadarnhau gofynion mannau parcio a thynnu sylw at fannau parcio nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio i gael gwared ohonyn nhw.

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| | Dyma'r meini prawf cymhwysedd newydd arfaethedig:<br><br>- Rhaid bod gan yr unigolyn Fathodyn Glas parhaol dilys.<br>- Rhaid bod gan yr unigolyn gar wedi'i gofrestru yn ei gyfeiriad a rhaid i'r ceidwad cofrestredig fyw yno.<br>- Rhaid bod dim mynediad gan yr unigolyn i barcio oddi ar y ffordd.<br>- Does dim gwaharddiadau traffig ar y ffordd yn uniongyrchol y tu allan i brif fynedfa'r eiddo a byddai'n ddiogel gosod man parcio ar gyfer pobl anabl.<br>- Rhaid i'r unigolyn ddarparu tystiolaeth feddygol gan Ymgynghorydd, Nyrs Arbenigol neu Ffisiotherapydd sy'n nodi'n benodol eu hanawsterau sy'n gysylltiedig â symudedd a pharcio.<br>- Rhaid bod yr unigolyn yn derbyn un o'r budd-daliadau isod:<br>- Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).<br>- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel.<br>- Lwfans Gweini.<br><br>Bydd angen i'r unigolion lanlwytho neu ddarparu dogfennau perthnasol i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf cymhwysedd, a bydd hyn yn cael ei wirio'n gynnar yn y broses. Yn yr un modd, bydd gwiriadau traffig yn cael eu cwblhau'n gynharach yn y broses cyn cwblhau asesiad gweithredol llawn ar gyfer y sawl sy'n bodloni'r meini prawf ac yn pasio'r gwiriadau traffig.<br><br>Bydd yr asesiad gweithredol yn seiliedig ar feini prawf wedi'u sgorio, a fydd yn cael eu hadolygu i ystyried y broses newydd a'r meini prawf cymhwysedd diwygiedig. Bydd y dystiolaeth feddygol sy'n cael ei ddarparu yn llywio ac yn cefnogi'r asesiad. Bydd angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chasglu'r dystiolaeth hon gael eu hariannu gan yr unigolion ac ni fydd unrhyw gostau'n cael eu had-dalu gan y cynllun mannau parcio ar gyfer pobl anabl.<br><br>Bydd panel yn gwneud y penderfyniad terfynol ar fannau llwyddiannus ac unrhyw ofynion cynllunio a Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i'w dilyn. O'r herwydd, gallai gymryd hyd at 2 flynedd o gyflwyno'r cais cyn i fan parcio ar gyfer pobl anabl gael ei osod.<br><br>Bydd y penderfyniad ynghylch codi tâl am y mannau parcio ar gyfer pobl anabl (cyfeiriwch at Adran 8) yn effeithio ar a yw'r mannau parcio'n cael eu gosod drwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig at ddefnydd unrhyw berson sydd â Bathodyn Glas, neu fel man parcio i breswylwyr â thrwydded. Bydd hyn yn ei dro yn pennu sut y byddai modd trefnu rheolaeth barhaus y mannau parcio orau, o ran defnydd ac angen parhaus. |

Oherwydd natur ddewisol y cynllun a'r anawsterau sy'n gynhenid wrth reoli proses apelio ochr yn ochr â chynllun ymgeisio byw, awgrymir na ddylid fod hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel, fodd bynnag byddai modd i ymgeiswyr gyflwyno cais eto yn ystod y rownd nesaf.

| Opsiwn | Cost i'r ymgeisydd | Manteision | Risgiau |
|---|---|---|---|
| **Dewis 1: Dim tâl** | £0 | • Fforddiadwy i ymgeiswyr.<br>• Does dim angen ystyried mannau parcio â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.<br>• Osgoi problemau o ran taliadau heb eu gwneud. | • Dim incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun. |
| **Dewis 2: Tâl gweinyddu o £10 ar adeg cyflwyno'r cais.** | £10 i bawb | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun.<br>• Mae'r ffi yn fforddiadwy.<br>• Mae'r ffi wedi cael ei chodi ers sawl blwyddyn.<br>• Does dim angen ystyried mannau parcio â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. | • Efallai na fydd pobl yn gwerthfawrogi talu dim ond i gyflwyno cais.<br>• Mae angen prosesu taliadau.<br>• Awgrymodd adolygiad allanol y dylid ailystyried y tâl hwn. |
| **Dewis 3: Tâl o 10% o gost gosod y man parcio i ymgeiswyr llwyddiannus** | £115 (ar hyn o bryd) os yn llwyddiannus | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun.<br>• Byddai tâl canrannol yn symud yn unol â chostau gosod bob blwyddyn.<br>• Gellid disgwyl yn rhesymol y byddai budd-daliadau symudedd sy'n cael eu derbyn (gweler y meini prawf cymhwysedd) yn cael eu defnyddio i dalu'r gost. | • Efallai na fydd yn fforddiadwy i rai.<br>• Byddai angen ystyried man parcio i breswylwyr â thrwydded yn hytrach na Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.<br>• Mae angen prosesu taliadau. |
| **Opsiwn 4 (yr opsiwn a ffefrir): Ffi weinyddol o £10** | £10 i bawb + £115 (ar hyn o | • Rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cynllun. | • Gallai ffi uwch weithredu fel rhwystr i wneud cais, gan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **ar adeg cyflwyno'r cais, ynghyd â thâl o 10% o gost gosod y man parcio i ymgeiswyr llwyddiannus.** | bryd) os yn llwyddiannus | • Byddai newid mannau parcio i fannau parcio â thrwydded yn gwneud trefnau rheoli barhaus yn haws trwy ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cais arall am drwydded.<br>• Mae'r ffi weinyddol yn fforddiadwy i bawb.<br>• Mae ffi weinyddol wedi cael ei chodi ers sawl blwyddyn. | effeithio ar gydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.<br>• Efallai na fydd y ffi yn fforddiadwy i rai.<br>• Gallai fod yn anodd sefydlu rhesymeg dros y ffi a godir.<br>• Mae'n debyg y bydd angen i fannau parcio fod yn fannau parcio â thrwydded yn hytrach na mannau parcio ar gyfer pobl anabl at ddefnydd cyffredinol.<br>• Efallai na fydd pobl yn gwerthfawrogi talu ddwywaith.<br>• Bydd angen prosesu taliadau.<br>• Awgrymodd adolygiad allanol y dylid ailystyried y tâl gweinyddol. |

**Dyma ddolenni i'r dogfennau:**
insert here

Include fiia version here

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 07/05/25 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio.** | Unigolion, cynhalwyr, staff a'r gymuned ehangach. |

1.a) Nodwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Does dim rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i ddarparu Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl ac mae darparu'r rhain yn ddewisol. Dylid nodi, er nad oes sôn penodol am ofyniad ynghylch darparu parcio yn Neddf Cydraddoldeb 2010, na ddylai cyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, "wneud unrhyw beth sy'n cael ei ystyried yn wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth". (adran 29(6)).

Mae Adran 149 yn nodi bod rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, "roi sylw dyledus i'r angen i" ymhlith pethau eraill, "hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu". Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i'r angen i 'gymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl hynny sydd ddim yn eu rhannu. Mae Adran 149(4) yn nodi sut mae hyn yn berthnasol i'r ffordd y mae pobl anabl yn cael eu trin: Mae'n dweud: mae'r camau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion pobl anabl sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn benodol, camau i gymryd ystyriaeth o anableddau pobl anabl. Mae'n debyg y byddai hyn yn golygu ystyried, er enghraifft, effaith diffyg lleoedd parcio ger eu cartrefi a'u rhyddid i symud a theithio.

Mae gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ehangach sy'n llywodraethu ein gwaith, gan gynnwys yn benodol ar gyfer gwasanaethau i oedolion, yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - yn nodi ein cyfrifoldebau a ninnau'n awdurdod lleol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a chynhalwyr di-dâl sydd angen cymorth, ac am drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

RHONDDA CYNON TAF

- Cymru Iachach, Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2020.
- Gofynion Mwy Na Geiriau 2022 -2027

1.b) Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

| | |
|---|---|
| Defnyddwyr Gwasanaeth | √ |
| Gweithwyr | √ |
| Cymuned ehangach | √ |

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau’r polisi, a sut mae’r rhain yn berthnasol i’r Gymraeg?** | Y nod yw gwneud y broses o Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl yn gliriach, yn gyflymach ac yn fwy tryloyw.<br><br>**Cynllun ar gyfer Rhoi Gwybod**<br><br>• Byddwn ni'n rhoi gwybod i bobl am y newidiadau ac yn ymgynghori â nhw drwy arolygon, sesiynau galw heibio, llythyrau a chwestiynau cyffredin.<br>• Byddwn ni'n hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol i annog defnyddio'r Gymraeg drwy gydol hyn.<br>• Byddwn ni'n cynhyrchu deunyddiau mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch fel fformat Hawdd ei Ddarllen, print bras.<br>• Byddwn ni'n dweud wrth unigolion, cynhalwyr, teuluoedd a staff beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud.<br><br>Bydd ymgynghoriad ar y cynnig a'i asesiadau effaith ar y Gymraeg a chydraddoldeb cysylltiedig yn cael ei gynnal yn ystod 2025.<br>Bydd yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddilyn canllawiau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr holl gyfathrebu'n cael ei gyflwyno mewn fformat hawdd ei ddeall. Ym mhob cam rhyngweithio, bydd deunyddiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>**Ymgynghoriad yn y dyfodol**<br>Cychwyn ymgynghoriad wedi'i dargedu 8 wythnos gan ddechrau ar 16 Mehefin 2025, i geisio barn staff, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ar y model newydd arfaethedig, gan ganolbwyntio ar ofyn y canlynol i bobl:<br><br>• beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran y newidiadau, gan gynnwys:<br>• beth yw eu barn am ein bwriadau<br>• beth maen nhw angen i ni ddweud wrthyn nhw<br>• beth dydyn ni ddim wedi meddwl amdano<br><br>Yn dilyn hyn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr hydref 2025 yn manylu ar ganlyniad yr ymgynghoriad wedi'i dargedu arfaethedig, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch newidiadau i wasanaethau. |

| | |
|---|---|
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?<br>Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Bydd gan unigolion sy'n siarad Cymraeg y dewis o gyfathrebu â'r Cyngor yn y Gymraeg o hyd er mwyn cynnal darpariaeth gwasanaeth gyson. Bydd gofyniadau Mwy Na Geiriau 2022-2027 hefyd yn parhau o safbwynt amddiffyn y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol.<br><br>Bydd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r polisi a'r broses ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau hawdd eu darllen, gan sicrhau nad yw iaith yn rhwystr o safbwynt cymryd rhan. Trwy flaenoriaethu cyfathrebu dwyieithog, anelwn at sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi. Byddai hyn yn sicrhau bod modd i unigolion a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg lywio'r broses heb rwystrau iaith.<br><br>Bydd sesiynau ymgynghori yn cael eu cynnig yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda staff dwyieithog yn bresennol i hwyluso hyn yn ôl yr angen.<br><br>Bydd pobl sy'n ymweld â Chanolfannau IBobUn yn y llyfrgelloedd i wneud cais ar gyfer Man Parcio ar gyfer Pobl Anabl yn elwa o weld llenyddiaeth a deunyddiau Cymraeg yn y lleoliad gan gynnwys cyfleoedd ehangach i bobl gael mynediad at ddosbarthiadau Cymraeg, grwpiau sgwrsio, gweithgareddau ac achlysuron diwylliannol.<br>Mae'n bosibl y bydd dysgwyr a siaradwyr Cymraeg hefyd yn clywed Cymraeg yn cael ei siarad gan aelodau eraill o'r cyhoedd pan fyddan nhw yn y llyfrgell ac yn y gymuned. Byddan nhw hefyd yn gweld enwau lleoedd Cymraeg ar arwyddion stryd wrth iddyn nhw deithio i'r Canolfannau IBobUn. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf o fis Mai 2025 yn dangos bod y rhan fwyaf o unigolion â man parcio gweithredol yn siarad Saesneg, gyda 36 allan o 45 yn nodi'r iaith hon. Ni chofnododd y 9 sy'n weddill eu hiaith lafar.<br><br>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data manwl o'r Cyfrifiad bellach ar gael ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n dangos bod gyda ni nifer gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y |

| | |
|---|---|
| | rhai yn ne'r Fwrdeistref Sirol (tua 25% mewn rhai achosion), felly gallai hyn apelio atyn nhw a bydd hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau/polisïau rydyn ni'n eu cynllunio a'u darparu. Plant oedran ysgol yw ein grŵp uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf gyda chanran yn yr 20au canol i uchaf. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r unigolion 70-80 oed lle mae'r ffigurau islaw 5%. Mae hyn yn arwyddocaol o ran sut rydyn ni'n cynllunio ein gwasanaethau yn y dyfodol ac yn recriwtio gweithlu sydd â'r gallu i asesu a chyflawni yn unol ag iaith ddewisol pobl. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | 'Mwy na geiriau' 2022-2027 yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau iaith Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal pobl a bod y cynnig o wasanaethau Cymraeg i bobl yn hynod bwysig. Mae sicrhau ddeilliannau llesiant cadarnhaol i unigolion yn sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddyn nhw orfod gofyn amdano fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Rhagweithiol'.<br>Mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn mynnu bod gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol yn bwrw'r meini prawf canlynol:<br>• O'r un safon ac ar gael mor hawdd a phrydlon â gwasanaethau cyfrwng Saesneg<br>• Mor eang a thrylwyr<br>• Ni ddylai sefydliadau gymryd yn ganiataol mai Saesneg yw'r dewis iaith wrth ddarparu eu gwasanaethau.<br><br>Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau na ddylai siaradwyr Cymraeg orfod gofyn am wasanaeth yn y Gymraeg ac i ategu'r gwasanaethau Cymraeg sydd eisoes ar waith ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn cefnogi trafodaeth ar Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar atebion gydag unigolion a'u cynhalwyr yn eu dewis iaith, a hynny ar draws sawl Adran wahanol o'r Cyngor, gan lywio cynlluniau gweithlu priodol o ran hyfforddi a recriwtio staff i adeiladu ein gallu i adlewyrchu'r boblogaeth leol a'u dewis iaith, fel sy'n ofynnol gan Cymru Iachach, Llywodraeth Cymru 2020. |

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar y Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg. | Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon? | Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr.<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i | Cadarnhaol | Mae gofynion fframwaith strategol Mwy Na Geiriau 2022-2027 ar gyfer gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael eu rhoi ar waith. | Mae sgiliau/hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 yn rhan o Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae hefyd wedi'i ymgorffori ym mhroses gofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid i holl staff y Cyngor fod â Chymraeg Lefel 1, o leiaf, a | Cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu deall a'u diwallu, a bod y rhai sy'n defnyddio'n gwasanaethau ac sy'n gweithio ynddyn nhw'n gallu dibynnu ar gael eu trin ag urddas a pharch y maen nhw'n eu haeddu. Fel yr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | | Er y gallai'r newid arfaethedig gyflwyno rhai manteision ariannol ac effeithlonrwydd i'r Cyngor, mae hefyd yn creu cyfle i wella'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, ar yr amod bod digon o gymorth ac adnoddau ar gael. Drwy ddarparu opsiwn llai cymhleth i unigolion a theuluoedd, gallai annog rhagor o unigolion i gyflwyno cais am Fan Parcio ar gyfer Pobl Anabl. Gallai’r cynnydd hwn mewn ceisiadau arwain at alw uwch am wasanaethau yn y Gymraeg, oherwydd efallai y bydd unigolion a theuluoedd yn dewis cyfathrebu yn yr iaith hon.<br><br>I'r gymuned ehangach sy'n siaradwyr Cymraeg, gall argaeledd gwasanaethau yn eu hiaith feithrin ymdeimlad cryfach o gymuned a chynhwysiant. Gallai hyn annog rhagor o siaradwyr Cymraeg i ymgysylltu’n weithredol â’r Cyngor a’i wasanaethau. | chaiff ei sicrhau drwy'r rhaglen ymsefydlu.<br><br>Er bod lefel 1 yn ofynnol, byddwn ni hefyd yn cynnig cymorth pellach i'r rhai sy'n dymuno symud ymlaen i lefelau pellach a fydd yn ei dro yn cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Mae Strategaeth Gweithlu gyntaf y Gwasanaethau i Oedolion, a gymeradwywyd yn 2024, yn cynnwys Uchelgais 5: rhoi mynediad i'n staff at gyfleoedd addysg a hyfforddiant o ansawdd da sy'n cynnwys 5.1, Mynd i'r afael â chynhwysiant ieithyddol ar gyfer y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae'r flaenoriaeth hon a'r cynllun gwaith cysylltiedig yn manylu ar y camau gweithredu, y manteision a'r gwaith monitro o'n hymrwymiad i gynyddu'r dysgwyr Cymraeg, siaradwyr Cymraeg a phresenoldeb y Gymraeg yn ein gwasanaethau a'n gweithle. | amlinellwyd yn Mwy Na Geiriau 2022-2027, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau iaith Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r gwasanaethau i oedolion yn annog staff asesu i ddatblygu eu sgiliau llafar a'u hyder trwy gyfarfod yn anffurfiol mewn grwpiau i sgwrsio - fel arfer yn ôl lefelau rhuglder. Mae staff hefyd yn cael gwybod am gyfleoedd hyfforddi ac yn cael eu hannog i fanteisio arnyn nhw'n gorfforaethol drwy e-bost a The Source, a hefyd gan reolwyr llinell mewn cyfarfodydd carfan, sesiynau goruchwylio ac Adolygiadau Cyflawniad Unigol.<br><br>Uchelgais 6 o Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Oedolion 2024 yw 'Cynllunio ar gyfer olyniaeth ac adeiladu capasiti ein gweithlu i ddiwallu gofynion y boblogaeth'. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd yr hyfforddiant staff gorfodol gyda 9 modiwl ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd ar gael ar The Source yn gwella ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol staff i gefnogi pobl mewn modd effeithiol ac yn addas. | | Mae data o'r Cyfrifiad bellach ar gael ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n dangos bod gyda ni nifer gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y rhai yn ne'r Fwrdeistref Sirol, (tua 25% mewn rhai achosion), gan wneud hyfforddi staff presennol a recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael o fewn y gweithlu bob amser i wneud cynnig rhagweithiol o wasanaethau yn y Gymraeg. |

RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cadarnhaol | Ni fydd y newid yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg ymhlith staff, trigolion, na'r gymuned ehangach.<br><br>Bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r opsiwn o asesiadau yn y Gymraeg ac yn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog ar gael. Byddai modd i hyn wella gwelededd a defnydd y Gymraeg ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Drwy sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo, mae modd i'r Cyngor | Mae data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Rhondda Cynon Taf o fis Mai 2025 yn dangos bod y rhan fwyaf o unigolion â man parcio gweithredol yn siarad Saesneg, gyda 36 allan o 45 yn nodi'r iaith hon. Ni chofnododd y 9 sy'n weddill eu hiaith lafar.<br><br>Mae'r holl staff newydd nad ydyn nhw eisoes yn bodloni gofynion Cymraeg Lefel 1 yn dilyn hyfforddiant Lefel 1 ar-lein, (cwrs ar-lein 2 awr). Mae'r broses yma wedi'i hymgorffori yn ein Fframwaith Ymsefydlu Gweithwyr. Er bod lefel 1 yn ofynnol, byddwn ni hefyd yn cynnig cymorth pellach i'r rhai sy'n dymuno symud ymlaen i lefelau pellach a fydd yn ei dro | Parhau i gefnogi hyfforddiant staff i wella sgiliau dwyieithog dysgwyr.<br><br>Yn unol â'r flaenoriaeth yn y Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion, 'Rydyn ni am i bobl elwa o weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n ymgysylltu', byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn newis iaith unigolion, gan gynnig cyfleoedd a chymorth i'n gweithlu ddysgu Cymraeg drwy drafod yr ymrwymiad amser sydd ei angen ar staff i ddatblygu ac ymarfer sgiliau ieithyddol a chytuno ar y rhaniad o amser eich hun ac amser gwaith i wneud hynny. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyfrannu'n gadarnhaol at y nodau strategol hyn.<br><br>Gall ymgysylltu â chymunedau ac unigolion sy'n siarad Cymraeg yn ystod yr asesiadau a'r ddarpariaeth o wasanaethau roi cipolwg gwerthfawr ar y ffordd orau o gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn.<br><br>Mae'r newid yn cynnig cyfle i'r Cyngor atgyfnerthu ei ymrwymiad i'r Gymraeg drwy sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn hygyrch a thrwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyfathrebiad ac asesiad sy'n ymwneud â Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl.<br><br>Bydd yn parhau i gefnogi Gwasanaethau i Oedolion i roi cyfle i'n staff gofal cymdeithasol ddysgu a gloywi eu Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau yn Gymraeg lle bo angen yn unol â'u dyletswyddau statudol. Bydd unrhyw ddysgu o'r fath hefyd o fudd i'r gymuned gyfan ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. | yn cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Bydd gan unigolion, rhieni/cynhalwyr, staff, a phob rhanddeiliad sy'n siarad Cymraeg y dewis o gwblhau asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae strategaeth 5 mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynyddu sgiliau Cymraeg ein gweithlu.<br><br>Nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw bod â miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Bydd y polisi hwn yn tynnu sylw at yr hyn mae modd i bobl ei ddisgwyl gennym ni yn y Gymraeg a bydd ymwybyddiaeth o'r fath yn annog rheolwyr i ysgogi staff i ddysgu a gwella eu Cymraeg er mwyn eu galluogi i gynnig gwasanaethau'n weithredol yn yr iaith hon lle dyma yw dewis iaith unigolion. | Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i ddarparu cyfleoedd i staff gofal cymdeithasol sydd â sgiliau Cymraeg lefel 3 ac uwch i ddatblygu eu hyder a'u geirfa yn y gweithle. Mae tiwtor wedi'i benodi ac mae disgwyl i tua 14 o staff dderbyn cymorth unigol yn 2025/2026. O'r grŵp hwn, mae cynrychiolaeth dda o Therapyddion Galwedigaethol, sy'n berthnasol i asesiadau Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl.<br>Un nod yw gweld newid graddol yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac ysgogi eraill i ddatblygu eu sgiliau ymhellach hefyd. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd hyrwyddo cyfleoedd i staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni eu rôl ac yn y gweithle yn gyffredinol yn creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus i siarad yr iaith a datblygu eu dealltwriaeth ymhellach yn broffesiynol ac yn gymdeithasol.<br>Bydd hyn yn helpu i gynyddu cynhwysiant ac amrywiaeth ieithyddol yn y gweithlu, fel y ceisir gan bolisi lleol a chenedlaethol. | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | Cadarnhaol | Drwy weithredu newid i Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl, mae cyfle i gadarnhau statws y Gymraeg mewn prosesau gweinyddol ac wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.<br><br>Gall darparu dogfennaeth a chymorth dwyieithog yn ystod y broses annog unigolion a theuluoedd i ymgysylltu â gwasanaethau yn y Gymraeg, a thrwy hynny wella gwelededd a defnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau cyfreithiol a gweinyddol.<br><br>Drwy sicrhau'n rhagweithiol bod gwasanaethau Cymraeg ar gael | Mae sgiliau/hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 yn rhan o Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, rhaglen ymsefydlu gyffredinol y Cyngor ac mae hefyd wedi'i ymgorffori ym mhroses gofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru. (Rhaid i bob aelod o staff gofal cymdeithasol gwblhau'r uchod yn rhan o'u proses gofrestru, mae hyn hefyd yn berthnasol i staff sy'n gweithio i sefydliad Darparwr Annibynnol.) O ystyried cymhlethdod ac ystyriaethau cyfreithiol y polisi hwn, mae'n debygol y bydd y sgiliau sydd eu hangen ar staff i gynnal | Bydd unigolion, staff a'r gymuned ehangach yn gallu defnyddio eu Cymraeg, pan gânt gyfle i fynegi eu barn ar y cynnig yn ystod y broses ymgynghori.<br><br>Pan fyddwn ni'n rhoi gwybod i bobl am y newidiadau, mae modd i ni hefyd eu hatgoffa bod gyda nhw'r cyfle i ymdrin â ni yn y Gymraeg, nid yn unig yn ystod yr ymgynghoriad hwn ond yn ehangach wrth gyfathrebu â ni. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ac yn cael eu hannog, mae modd i'r Cyngor gyfrannu'n gadarnhaol at statws a defnydd yr iaith o fewn y gymuned a grymuso unigolion sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn ystod asesiadau a thrafodaethau cysylltiedig, gan feithrin amgylchedd mwy cynhwysol sy'n parchu ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg.<br><br>Ar ben hynny, drwy gynnig cymorth gyda Cheisiadau Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl yng Nghanolfannau IBobUn, rydyn ni'n defnyddio staff sydd eisoes yn gorfod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac felly mae'n bosibl y bydd yr opsiwn hwn ar gael yn fwy rhwydd i ddiwallu dewisiadau iaith. | asesiad o'r fath yn y Gymraeg yn fwy na'r rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer llawer o wasanaethau, ac felly mae lefel 4/5 yn briodol yma. Bydd gweithredu yn y Gymraeg ar lefel mor broffesiynol yn gofyn am recriwtio wedi'i dargedu yn ogystal â chyfleoedd dysgu ac addysg da i staff presennol er mwyn diwallu anghenion a dewisiadau'r boblogaeth. | Yn unol â'r flaenoriaeth yn y Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion, 'Rydyn ni am i bobl elwa o weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n ymgysylltu', byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn newis iaith unigolion, gan gynnig cyfleoedd a chymorth i'n gweithlu ddysgu Cymraeg.<br><br>Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i ddarparu cyfleoedd i staff gofal cymdeithasol sydd â sgiliau Cymraeg lefel 3 ac uwch i ddatblygu eu hyder a'u geirfa yn y gweithle. Mae tiwtor wedi'i benodi ac mae disgwyl i tua 14 o staff dderbyn cymorth unigol yn 2025/2026.<br>Un nod yw gweld newid graddol yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac ysgogi eraill i ddatblygu eu sgiliau ymhellach hefyd. |

RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â [Safonau Statudol y Gymraeg]**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Mae deddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i ystyried y Gymraeg wrth gyrchu, comisiynu a darparu gofal i unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn cael y deilliannau gorau posibl. Fyddai'r rhwymedigaeth hon heb ei heffeithio gan y polisi. Yn yr un modd, mae'r rhwymedigaethau mewn perthynas â Mwy Na Geiriau 2022–2027, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, heb eu heffeithio.<br><br>Gan y gallai llawer o ymgeiswyr posibl am Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl ystyried bod y diwygiad yn fwy syml, gallai hyn arwain at gynnydd mewn ceisiadau. Gallai | Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd unrhyw gyfarfodydd gyda staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â'u llesiant yn parhau i gadw at Safonau 24, 24A, 26 a 26A er mwyn sicrhau bod cynnig rhagweithiol o'r Gymraeg yn cael ei wneud. Mae'r Safonau hyn yn rhan annatod o'r fframwaith wedi'i grybwyll. | Byddwn ni'n parhau i fonitro a gwella systemau sydd ar waith i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a'i bod yn cael ei hyrwyddo drwy'r gweithlu a thrwy'r ffordd rydyn ni'n cynnal ein busnes drwy'r gwerthusiad gwasanaeth blynyddol.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn cefnogi staff sy'n siarad Cymraeg i gyfathrebu ag unigolion a chynhalwyr sy'n siarad Cymraeg yn eu ffordd ddewisol o gyfathrebu.<br><br>Sicrhau mwy o gysondeb o ran y gwasanaethau |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hyn arwain at fwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, a thrwy hynny wella gallu'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft:<br><br>Bydd y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod modd i bobl gyfathrebu'n effeithiol yn eu dewis iaith.<br><br>Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth am y newid a'r opsiwn i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael ei chyfleu'n glir i'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol bod modd iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn eu hiaith, a thrwy hynny gefnogi cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol. | | Cymraeg a gynigir a gwella eu hansawdd ar draws y gwasanaeth.<br>Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i recriwtio therapyddion galwedigaethol Cymraeg yn benodol yn y dyfodol os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal asesiad o angen yn yr iaith o ddewis.<br><br>Bydd angen i ni fonitro effaith y tâl hwn ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg. Bydd gwerthusiadau rheolaidd yn helpu i asesu a yw'r cynnig yn gwella neu'n rhwystro darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn ni'n asesu a oes angen rhagor o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau os yw'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yn uwch na'r disgwyl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.** | Cadarnhaol | Nid yw'r polisi yn effeithio ar y gofyniad yma.<br><br>Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddor o beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau hygyrchedd, hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog, ac ymgysylltu â'r gymuned sy'n siarad Cymraeg yn effeithiol.<br><br>Byddwn ni'n sicrhau bod swyddogion sy'n hwyluso achlysuron ymgynghori lle mae pobl wedi dweud wrthym ni mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith yn gallu diwallu anghenion mynychwyr Saesneg a Chymraeg eu hiaith.<br>Byddwn ni'n darparu siaradwyr Cymraeg / staff dwyieithog mewn achlysuron ymgynghori lle dydyn ni ddim yn gwybod dewis iaith ymlaen llaw. | Nid yw'r cynnig yn gwahaniaethu rhwng ieithoedd o'i weithredu. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth y gall pob unigolyn gael mynediad ato, waeth beth fo'u dewis iaith. Bydd y polisi’n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn derbyn yr un lefel o wasanaeth. | Sicrhau cysondeb o ran y gwasanaethau Cymraeg a gynigir a gwella eu hansawdd ar draws y gwasanaeth, gan sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn wynebu oedi nac anfantais oherwydd dewis iaith.<br><br>Byddwn ni'n recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal asesiadau yn yr iaith o ddewis. |

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? Gallai darpariaeth arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

| Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| Yn rhan o'r polisi a'r strategaeth Gwasanaethau i Oedolion ehangach, byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â staff, unigolion, teuluoedd, rhieni a chynhalwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | Yn parhau | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth |
| Mae'r camau i liniaru risgiau a/neu wella effaith gadarnhaol y polisi hwn yn dibynnu ar gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg sydd ar gael i gynnal asesiadau yn yr iaith, yn unol â'r galw, i'r safon ofynnol, drwy hyfforddiant a recriwtio. | Mae'r Grŵp Llywio a'r Cynllun Gwaith presennol ar gyfer y Strategaeth Gweithlu Oedolion yn cynnig mecanwaith addas ar gyfer gosod a monitro blaenoriaethau yn rheolaidd. | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth |
| Mae'r polisi'n cyd-fynd â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer oedolion yn Rhondda Cynon Taf. Mae rhwymedigaethau presennol ar wasanaethau i oedolion i hybu a chefnogi'r Gymraeg. Ar hyn o bryd mae gyda ni staff ar gael i reoli'r cynnig gweithredol. Os byddwn ni'n canfod nad oes staff ar gael mwyach mewn meysydd asesu penodol, byddwn ni'n ystyried proses recriwtio wedi'i thargedu'n benodol at staff sy'n siarad Cymraeg. | Yn parhau | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth |
| Bydd y gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg i staff ac yn eu cefnogi i ddysgu a gwella'u hiaith. | Yn parhau | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth |

RHONDDA CYNON TAF

<table>
<tr><td colspan="2">Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.</td></tr>
<tr><th>Beth gafodd ei nodi?</th><th>Pam nad yw'n bosibl?</th></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
</table>

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p’un a yw’n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae’n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.** |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau'r Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?

Bydd yr effaith a'r effeithiolrwydd yn cael eu monitro drwy:

- Olrhain yn rheolaidd nifer y ceisiadau a dderbynnir am Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl o dan y broses newydd o'i gymharu â'r un flaenorol.
- Casglu adborth gan unigolion, teuluoedd, rheolwyr gofal a staff ar draws yr Adran sy'n ymwneud â Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl ynghylch eu profiad o'r broses a'r tâl/taliadau cysylltiedig yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n cael ei gymeradwyo.

Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei adolygu cyn pen 12 mis ar ôl ei roi ar waith. Mae'r amserlen hon yn caniatáu cyfnod casglu data digonol i asesu effeithiolrwydd ac effaith y weinyddiaeth newydd ac unrhyw dâl/taliadau.

Carfan rheoli'r Gwasanaethau i Oedolion sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig, mewn cydweithrediad â staff IBobUn, Priffyrdd a'r adran(nau) gyllid perthnasol. Bydd swyddogion dynodedig yn cael eu neilltuo i oruchwylio'r gwaith o olrhain ceisiadau a goblygiadau ariannol y cynnig.

Bydd canlyniadau'r gwaith monitro yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad cynigion yn y dyfodol drwy nodi tueddiadau yn y galw, asesu'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth, a chasglu goleuni pellach o adborth gan randdeiliaid. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio addasiadau posibl i'r broses, ac unrhyw gymorth ychwanegol a allai fod ei angen ar unigolion.

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

Mae Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau a dyma'r prif ganfyddiadau ar gyfer y newidiadau arfaethedig i Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl:

- Bydd cyfleoedd i wasanaethau barhau i hyrwyddo'r iaith ac uwchsgilio staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- Drwy sicrhau'n rhagweithiol bod gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu hannog, mae modd i'r Cyngor gyfrannu'n gadarnhaol at statws a defnydd yr iaith o fewn y gymuned a grymuso unigolion sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn ystod asesiadau a thrafodaethau cysylltiedig, gan feithrin amgylchedd mwy cynhwysol sy'n parchu ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg**.**
- Bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r opsiwn o asesiadau yn y Gymraeg ac yn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog ar gael. Byddai modd i hyn wella gweledeedd a defnydd y Gymraeg ymhlith pobl.
- Mae hefyd yn creu cyfle i wella defnydd y Gymraeg, ar yr amod bod digon o gymorth ac adnoddau ar gael. Drwy ddarparu opsiwn llai cymhleth i unigolion a theuluoedd, gallai annog rhagor o unigolion i wneud cais am Fannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl. Gallai'r cynnydd hwn mewn ceisiadau arwain at alw uwch am wasanaethau yn y Gymraeg, oherwydd efallai y bydd unigolion a theuluoedd yn dewis cyfathrebu yn yr iaith hon.
- Parhau i gefnogi gwasanaethau i oedolion, gan roi cyfle i'n staff ym maes gofal cymdeithasol ddysgu a gwella eu Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg lle bo angen, yn unol â'u dyletswyddau statudol, gan ganolbwyntio'n benodol ar adborth gan unrhyw Therapyddion Galwedigaethol sy'n ymwneud ag asesu Mannau Parcio ar gyfer Pobl Anabl a'r Cwrs Codi Hyder. Bydd unrhyw ddysgu o'r fath hefyd o fudd i'r gymuned gyfan ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth am y newid a'r opsiwn i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael ei chyfleu'n glir i'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol bod modd iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn eu hiaith, a thrwy hynny gefnogi cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol.

'Mwy na geiriau' 2022-2027 yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau iaith Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal pobl a bod y cynnig o wasanaethau Cymraeg i bobl yn hynod bwysig. Mae sicrhau ddeilliannau llesiant cadarnhaol i unigolion yn sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddyn nhw orfod gofyn amdano fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Rhagweithiol'.

| **<u>Cam 7 – Cymeradwyo</u>** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Mari Ropstad | **Enw Cyfarwyddwr y Gwasanaeth:** | Sian Nowell |
| **Swydd** | Pennaeth Gwasanaeth, Mynediad, Galluogi ac Ymyrraeth Gynnar | **Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg.** |
| **Llofnod** | *M Ropstad* | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | |
| **Dyddiad** | 12/05/25 | **Dyddiad** | |